**Ymarferydd Diogelwch Cymunedol – Prosiect ADLEWYRCHU**
**Dros Gyfnod Absenoldeb Mamolaeth.**

**Rhif y Swydd: 502254**

**Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau**

**37 Awr yr wythnos**

**Gradd 8**

**CYFLOG: £30,296 – £31,364 y flwyddyn**

(A fyddech gystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd)

Mae'r swydd wag dros dro uchod (a fydd am gyfnod o 12 mis i gychwn) wedi codi yn yr Adrannau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau (DCaPh) ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio fel rhan o dîm bychan ac yn cynorthwyo wrth ddatblygu, cynllunio, cyd-lynu a chyflenwi Prosiect ADLEWYRCHU ar draws ardal Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru ac mae'n rhaid i ddeilydd y swydd allu teithio'n annibynnol.

Dylai ymgeiswyr feddu ar Dystysgrif Lefel 2 Agored Cymru gyfredol ar gyfer Ymarfer Gwaith Ieuenctid neu gymhwyster cyfatebol a/neu brofiad perthnasol blaenorol o ddarparu gwaith ieuenctid.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gyflawni rôl brysur ac mae profiad o gyflwyno mewn lleoliadau amrywiol gan ddangos ymagwedd ddigynnwrf, hyderus a hyblyg wrth gyflawni yn rhagofyniad ar gyfer y swydd.

Disgwylir i Hyfforddwyr ADLEWYRCHU weithio’n agos gydag asiantaethau partner i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl ifanc a gyfeiriwyd at y prosiect. Byddai profiad o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol yn fanteisiol.

Achos natur y rôl mae angen cyrchu gwybodaeth sensitif yn aml ac felly mae angen dealltwriaeth gynhwysfawr o bwysigrwydd trin a chadw data personol yn gywir.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau'r Ymarfer Gweithgaredd Tir - Cwrs Diogelwch i Oruchwylio wrth ddechrau'r rôl.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am Brosiect ADLEWYRCHU ar dudalennau gwefan GTADC ar dudalenau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau o dan Ymgysylltu â Phobl Ifanc ac Addysg a Gwasanaethau Addysg ac Ieuenctid.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio 37 awr yr wythnos, ac mae Cynllun Gweithio Hyblyg ar waith.

Sylwer: Dylai ymgeiswyr y System Ddyletswydd Wrth Gefn gymryd oriau eu hargaeledd i ystyriaeth wrth ymgeisio ar gyfer y swydd wag hon a thrafod unrhyw gwestiynau ynglŷn ag argaeledd â'ch Rheolwr Gorsaf System Ddyletswydd Wrth Gefn.

I gael rhagor o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â Nicola Wheten drwy law e-bost:
n-wheten@decymru-tan.gov.uk

Croesewir ceisiadau gan weithwyr cyfredol Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru â'r profiad a'r cymwysterau priodol i gwrdd â gofynion y Manyleb Person.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan:
https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-gyda-ni/swyddi-diweddaraf/
Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk Sylwch y bydd y system e-recriwtio yn hysbysu pob ymgeisydd o'r canlyniadau trwy'r cyfeiriad e-bost a ddarperir yn y cais; dylech sicrhau eich bod yn gwirio pob ffolder post yn rheolaidd.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00, ganol dydd Dydd Gwener 11eg o Hydref 2024.**

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddiannus ar y cam Llunio'r Rhestr Fer yn cael y cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar, a chwestiynau cyfweliad). Bydd trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gallant gynnwys Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol ac rydym am annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio**

Living Wage Employer

disability confident COMMITTED